# Categori ffordd o fyw

Rydyn ni'n addoli Duw sy'n caru'r ddaear a greodd, ac sy'n galw arnom ninnau i ofalu amdani. Er bod gweithredu gyda'n gilydd fel eglwys yn bwysig, mae cyfrifoldeb arnom hefyd fel unigolion i weithredu yn ein bywydau beunyddiol, er mwyn camu'n ysgafn ar y ddaear, a defnyddio'n lleisiau i eiriol dros fyd natur. Mae'r categori yma'n trafod ein heglwysi'n annog pobl i weithredu fel unigolion ac aelwydydd – gwneud gofal am y cread yn rhan annatod o'n bywydau beunyddiol er mwyn integriti, yn weithred o addoliad ac ufudd-dod i Dduw, ac wrth i ni dyfu fel disgyblion.

**Cyfeiriwch at y** ddogfen trosolwg Ffordd o Fyw **i gael arweiniad pellach ar gwblhau'r categori yma.** (Saesneg yn unig)

**Sylwer bod** y ddogfen hon er gwybodaeth ac at ddefnydd eglwysi'n unig. I ymgeisio am ddyfarniad Eco Church, bydd angen i chi gopïo eich atebion i'r arolwg ar-lein ar blatfform ar-lein Eco Church (Saesneg yn unig). Gan mai tîm gweinyddol bach ydyn ni, allwn ni ddim derbyn copïau papur o arolygon yn geisiadau am ddyfarniadau.

## Ymrwymiad

1. Mae gan ein heglwys strategaeth neu gynllun i hyrwyddo patrymau defnydd egwyddorol ac ymwybodol o'r amgylchedd ymhlith unigolion ac aelwydydd.

Oes / Nac oes

## Thema 1: Dylanwad

2. Mae ein hyrwyddwr neu ein tîm Eco Church yn rhannu cynghorion/camau ar gyfer ffordd fwy egwyddorol a chynaliadwy o fyw gydag arweinwyr ein heglwys a/neu'r corff llywodraethu, i'w monitro a'u hadolygu.

Yn rheolaidd / Yn achlysurol / Byth

3. Mae gwybodaeth a chyngor ynghylch sut gall unigolion ac aelwydydd ymateb i argyfyngau'r hinsawdd a byd natur yn cael eu rhannu'n eang ar draws sianeli cyfathrebu ein heglwys (e.e. cylchlythyron, cyfryngau cymdeithasol, gwefan).

Yn eang ac yn rheolaidd / Yn llai aml a/neu trwy rai sianeli yn unig / Ddim o gwbl

4. Mae ein heglwys yn mynd ati i annog y gynulleidfa gyfan i gymryd rhan mewn ymgyrchoedd cymdeithasol neu amgylcheddol y mae'r eglwys yn eu cefnogi (ym mha ffurf bynnag, e.e. arwyddo deisebau, croesawu AS i wasanaeth, mynychu gorymdeithiau neu brotestiadau mawr).

Yn rheolaidd / Yn achlysurol / Byth

**Categori ffordd o fyw**

## Thema 2: Ôl troed carbon

5. Mae ein heglwys yn hybu archwilio ôl troed carbon unigolion ac aelwydydd (e.e. trwy ddefnyddio Climate Stewards, Giki, Take the Jump, Cyfrifydd Ôl Troed WWF, neu ddulliau eraill o gyfrifo).

Yn rheolaidd / Yn achlysurol / Byth

6. Mae ein heglwys yn cydnabod mai defnyddio ynni ar gyfer gwres a golau yw un o'r tri pheth sy'n cyfrannu fwyaf at allyriadau carbon yn y Deyrnas Unedig, ac mae'n hybu:

*Dewiswch bob un sy'n berthnasol*

ffyrdd i unigolion ac aelwydydd leihau defnydd o ynni a defnyddio ynni'n fwy effeithlon (e.e. mesuryddion clyfar, peiriannu effeithlon o ran ynni)

newid o nwy/olew i drydan ar gyfer gwresogi

tariffau trydan adnewyddadwy

Dim gweithredu ar ynni

## Thema 3: Dewisiadau personol

7. Mae ein heglwys yn cydnabod bod y system fwyd ddiwydiannol bresennol ar draws y byd yn anghynaliadwy i raddau helaeth. Er bod gan lawer o bobl ddewisiadau cyfyngedig o ran eu bwyd (e.e. oherwydd cost), bwyd yw un o'r pethau sy'n cyfrannu fwyaf at allyriadau carbon y Deyrnas Unedig. Rydyn ni'n annog:

*Dewiswch bob un sy'n berthnasol*

deiet seiliedig ar blanhigion yn bennaf

bwyta llai o gig a chynnyrch llaeth

bwyd a gynhyrchir yn lleol, gan gynnwys blychau llysiau lle bo modd

mentrau arbed ar gyfer bwyd a fyddai'n cael ei daflu i ffwrdd fel arall

ymgyrchu dros system fwyd gynaliadwy

Dim gweithredu ar fwyd

8. Mae ein heglwys yn cydnabod mai trafnidiaeth yw un o'r tri pheth sy'n cyfrannu fwyaf at allyriadau carbon yn y Deyrnas Unedig, ac mae'n annog:

*Dewiswch bob un sy'n berthnasol*

teithio llesol fel cerdded a beicio, lle bynnag y bo modd

ffyrdd o gynyddu defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus lle bo modd

ffyrdd o leihau defnydd o geir personol (e.e. rhannu ceir)

dewisiadau heblaw hedfan

Dim gweithredu ar drafnidiaeth

**Categori ffordd o fyw**

9. Mae ein heglwys yn cydnabod bod dewisiadau personol ynghylch sut rydyn ni'n defnyddio ein harian – gan gynnwys bancio, pensiynau, a buddsoddi – yn cael effaith sylweddol ar yr hinsawdd a byd natur. Mae ein heglwys ni yn hybu:

*Dewiswch bob un sy'n berthnasol*

gwybodaeth am ddewisiadau ariannol sy'n llesol i'r hinsawdd a byd natur

bancio gyda darparwyr sydd â pholisïau cadarn ar ddiogelu byd natur a'r hinsawdd, ac sydd ddim yn ariannu'r diwydiant tanwydd ffosil

tynnu arian allan o gronfeydd a phensiynau sy'n cefnogi tanwydd ffosil

undebau credyd a sefydliadau ariannol eraill a luniwyd at y diben sy'n gweithio i gael effaith gadarnhaol ar y gymdeithas a'r amgylchedd

Dim gweithredu ar arian

10. Mae ein heglwys yn cydnabod bod defnydd o nwyddau a gwasanaethau yn cael effaith sylweddol ar yr hinsawdd a byd natur. Mae ein heglwys yn annog unigolion ac aelwydydd i leihau eu defnydd a gwneud dewisiadau egwyddorol trwy hybu'r canlynol:

*Dewiswch bob un sy'n berthnasol*

gwefannau cymharu cynaliadwyedd fel Ethical Consumer

cydweithfeydd a mentrau rhannu lleol (e.e. oergell gymunedol)

mentrau benthyca/rhoi benthyg (e.e. Llyfrgell o Bethau)

defnydd o arolygon ac apiau i fonitro a lleihau defnydd o nwyddau (e.e. arolwg Creation Care)

prynu nwyddau a fasnachwyd yn deg lle bo modd

defnyddio caffi trwsio lleol

arall

Dim gweithredu ar batrymau defnydd nwyddau

11. Mae ein heglwys yn cydnabod bod y gwastraff a gynhyrchwn fel unigolion ac aelwydydd yn cael effaith sylweddol ar yr hinsawdd a byd natur, ac mae'n hybu:

*Dewiswch bob un sy'n berthnasol*

lleihau defnydd o ddeunyddiau ac adnoddau yn barhaus

osgoi defnyddio plastig untro a nwyddau i'w taflu lle bynnag y bo modd

ailddefnyddio neu brynu'n ail-law lle bynnag y bo modd

ailgylchu deunyddiau a chyfarpar lle bynnag y bo modd

compostio gwastraff bwyd naill ai gartref neu trwy gynllun casglu

gweithio tuag at anfon dim gwastraff i'w dirlenwi

lleiafu dŵr gwastraff

arall

Dim gweithredu ar wastraff yn cael ei hybu

**Categori ffordd o fyw**

## Thema 4: Byd Natur

12. Mae ein heglwys yn cydnabod pwysigrwydd cyfleoedd i fwynhau, meithrin a diogelu'r cread, ac mae'n annog ei haelodau i wneud y canlynol:

*Dewiswch bob un sy'n berthnasol*

ymuno â rhaglen 'Wild Christian' A Rocha UK

cynnal digwyddiadau a gweithgareddau yn yr awyr agored

cymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddoli (e.e. Campfeydd Gwyrdd, digwyddiadau'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt, etc.)

Dim anogaeth

13. Mae ein heglwys yn cydnabod bod gerddi preifat a mannau awyr agored eraill yn gallu gwneud cyfraniad sylweddol i fyd natur, ac mae'n annog aelodau i reoli eu mannau awyr agored eu hunain neu rai lleol er lles byd natur mewn rhyw ffordd.

Ydy / Nac ydy